

LLEISIAU O LAWР Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Cardwells, Machynlleth & Cardwells, Llanbedr Pont Steffan (960au cynnar)

Cyfwelai: VSW010 Phyllis Eldridge & Olwen Thomas

Dyddiad: 27.11.13

Cyfwelydd: Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary at the end of the Welsh text

00.00.15: Dechreuwn ni nawr gyda chi Phyllis. Os allwch chi ddweud ‘tho fi beth yw eich enw llawn chi?

Phyllis Eldridge nawr.

A beth o’ch chi cyn ‘nn y te?

Davies.

Davies o’ch chi. A beth yw'r cyfeiriad Phyllis?

Minafon, Llangeitho.

A’r dyddiad geni?

Yr ail o Ionawr, pedwar deg tri.

A beth amdano chi te, Olga? Enw llawn?

Olga Thomas.

A’r cyfeiriad?

Brynderw, Cwrtnwydd.

A’r dyddiad geni?

Naw, naw, pedwar deg pedwar.

A chi yn gynta Phyllis, ble gesoch chi’ch geni?

Yn Ciliau Aeron.

A beth o’dd ych tad yn neud?

Ffarno.

A beth am ych mam? O’dd hi’n gwitho?

Na, na, na. Dim ond ar y ffarm.

O’dd brodyr a chwiorydd?

O’dd ond o’n nhw’n hŷn. Oedd wedi mynd allan i weithio wedyn ond oedd y brawd gatre ar y ffarm. A o’n inne gatre ar ôl gorffen ysgol, ontyfe am dair blynedd. Yn ddigon hapus. O’n i’n enjoio’r gwaith. Ond cael ‘y nghadw, ca’l popeth oedd arian yn prynu ond dim cael arian. A ‘na pam es i allan i weithio wedyn. A gweld advert yn y papur, eisiau machinist i dreino i ddod i Llambled. A dod i Llambled wedyn, cael rhyw fath o interview.

STOPIO’R CYFWELIAD OHERWYDD SŴN CEFNDIROL

00.01.57: Ni’n barod i ailgychwyn nawr. Os ewn ni nôl jest tamed bach Phyllis, i’r cyfnod, o’ch chi’n gweud pwy oedran o’ch chi pan gadawoch chi ysgol?

Un deg chwech.

Un deg chwech. A beth nethoch chi (wedyn)?

Gatre ar y ffarm wedyn am ryw dair blynedd, a ca’l popeth roedd arian yn ei brynu yr adeg ‘nny ond ddim yn cael arian poced. Ca’l ‘y mwyd, a ca’l ‘n nillad, ond dim cael mwy na ‘nny.

Shwd o’ch chi’n twmlo am hwnna te?

Bitter.

O’ch chi?

O’n i’n teimlo wel, o’dd dyn eisie, yn begin am arian i fynd rhwle. Os o’n i eisie mynd i rywle o’dd rhaid gofyn am arian ne’ mynd i helpu. Bues i’n helpu peth o Anti. O’dd hi bach yn ffaoledig, mynd draw i ddwsto, a mopo. O’dd dim hwfer i ga’l. O’n i’n ca’l rhyw dau, dri swllt ‘da hi am neud e wedyn. A dyna beth oedd ‘yn arian poced i mewn ffordd.

00.02.58: Ac o’ch chi’n meddwl taw ‘na beth o’dd ych dyfodol chi ar y pryd?

Wel, o’dd dyn eisie mwy ‘na ‘nny ontyfe?

A beth ddigwyddodd wedyn te?

Wel, ar ôl rhyw dair blynedd gweld advert yn y papur, eisie machinists i, i’r ffactri Cardwells yn Llambled. A dod i’r Black Lion yn Llambled i ga’l rhyw fath o interview ond beth o’n nhw moyn o’dd merched i ddysgu gwnïo. O’dd dim gwahanieth faint o background o’dd ‘da chi, o’n nhw jest moyn i chi i fynd ontyfe.

00.03.32: Beth o’n nhw’n gofyn i chi te?

Wel, enw, cyfeiriad, oedran a o’n i’n galler iwso machine, machine gwnïo.

O’ch chi’n gallu iwso nhw ar y pryd?

O’n i’n gallu iwso un gwaith llaw, ond dim un ‘lectric achos o’dd dim ‘lectric i ga’l yr adeg ‘nny yn rhan fwya’ o ffermydd ontyfe. So o’n nhw’n gweud wedyn, wy’ ddim yn cofio pwy ddwarnod o’n i yn Llambled, ond wythnos ar ôl ‘nny o’dd y minibys yn pigo ni lan i fynd i Machynlleth. Y lojings wedi ca’l ‘u bwco yn barod i chi.

00.04.07: Ond beth o’n nhw’n gweud gatre am ‘na te?

Ddim yn hapus.

O’n nhw wedi treial stopo chi?

O'dd. Pob ffordd.

Chi'n swno'n benderfynol iawn.

Wel, o'dd rhaid bod ond'oedd e? So wedyn, mynd ar fore dydd Llun lan i Machynlleth a nôl ar nos Wener.

Chi'n swno'n ddewr iawn i fi, merch o gefen gwlad a mynd a ca'l gwaith yn treino, a lojins a phopeth. Bydde lot ddim gallu neud 'na bydde fe?

Pan fydda i wedi penderfynu neud rhywbeth, wy'n neud e. Alla i cymryd yn hir yn amal i neud 'yn meddwl i lan, ond pan fydda i wedi'i neud e, that's it.

00.04.53: A beth amdanoch chi te Olga? Ble cesoch chi'ch geni?

Yn Cwrt Newydd. Yr hena o beder o ferched a gorffen yr ysgol pan o'n i'n bymtheg, achos bod fy ffrindie i'n gorffen yr ysgol. Dim gwaith, ond o'dd mam yn gwitho mewn ffatri pacow yau. A man'ny ges i fynd. Ond o'n i ddim yn hoffi 'na, ddim yn lico 'na.

00.05.20: Pam o'ch chi ddim yn hoffi 'na?

O'n i ddim yn lico 'na o gwbwl. Ddim. Na. A glywedd mam wedyn bod eisie whech i fynd lan i Machynlleth i ddysgu, chi'n gwbod i wniö i gael y ffactri nôl i Lamed. A dyna beth nes i.

Beth o'ch chi moyn neud te? O'dd gyda chi syniad yn ych pen o beth licech chi neud?

Dim o gwbwl. Nago'dd. Na.

00.05.43: A shwd glywedd ych mam am y chwech o'dd eisiau?

Ie, dwi ddim yn siwr o'r ateb 'na. Ble o'dd hi wedi clywed 'na, ond un o'r chwech a'th lan gynta' es i i Machynlleth.

Ethoch chi i'r Black Lion wedyn i gael (cyfweliad)?

Naddo, na.

Shwd gethoch chi'ch dewis, neu shwd gethoch chi'r jobyn?

O'dd pump wedi cael eu dewis ac o'dd eisie un arall. A wy'n credu taw rhyw gynghorydd ne'r rwbeth wedodd, chi'n gwbod bod eisie un arall. Ac mi ges i fynd, heb gyfweliad na dim byd.

00.06.19: Ethoch chi'ch dwy yr un pryd?

Phyllis: Naddo.

Olga: Bues i 'na tua naw mis cyn Phyllis, do. Chwech o' ni aeth.

00.06.28: A shwd brofiad o'dd cael ych treino lan fan'na te?

Olga: Achos o'n i'n byw yng nghefen gwlad, a i fynd lan i Fachynlleth, oedd yn dre. O'n i ddim yn gyfarwydd mynd i dre. O'dd e'n beth mowr.

00.06.41: O'ch chi'n teithio te, o fan hyn i Fachynlleth? Shwd o'ch chi'n mynd?

Olga: Ar y trein i ddechre. O Llanybydder, achos o'dd trein yn mynd. Lan i Aberystwyth a trein arall o Aberystwyth. A nôl hefyd.

00.06.52: O'n nhw'n talu chi i fynd lan?

Olgan: O'n.

A beth am y lojins wedyn?

Olga: O'n. Odden nhw'n talu am y lojins hefyd.

00.07.02: A ble o'ch chi'n lojo?

Olga: O fewn cerdded i'r ffactri i Fachynlleth. Ie, ie.

Fel lle gwely a brecwast o'dd e?

Olga: Ie. Gwely a brecwast, ie.

00.07.14: Ond shwd o'ch chi'n teimlo'n mynd fan'na te, chi'n gwbod am y tro cynta'?

Olga: Rhyfedd. Ond o'dd y fenyw'n neis iawn, dros ben. O'dd dou o blant bach gyda hi. Dim gŵr wrth gwrs, ond hi a'r ddau blant. O'n nhw'n neud ni'n gartrefol iawn. O'n.

00.07.28: O'dd merched erill yn lojo 'na?

Oedd, chwech.

00.07.34: Oedd y chwech ohono chi i gyd 'na?

Olga: Oedd.

00.07.37: A chwech ohonoch chi'n dechre ar yr un diwrnod wedyn.

Olga: Ie, a dod nôl i Llambed ar yr un diwrnod.

00.07.43: Dod nôl diwedd yr wythnos ife?

Olga: Ie, ie. Mynd bore dydd Llun, nôl erbyn nos Wener, ie.

00.07.52: A shwd o'ch chi'n twmlo wedyn y diwrnod cynta'? Mynd mewn i ffactri o'ch chi?

Olga: Ie.

A beth o'dd enw'r ffactri?

Olga: Cardwells.

Cardwells, ym Machynlleth.

Olga: Ie.

00.08.04: A pan o'ch chi'n mynd fan'na, y chwech ohono chi, shwd beth o'dd yr hyfforddiant?

Olga: O'dd e'n agoriad llyged i weld y ffatri i ddechre.

Pam 'nny te?

O'n i ddim wedi gweld y fath beth erioed. Na. Dim wedi gweld y fath beth. O'n i'n meddwyl bod, wel, bod e'n fowr. Ond, o'n i'n dod at y gwnio yn eitha da.

00.08.25: O'dd lot o bobol 'na?

Olga: O, oedd. Lot.

Oedd hwnna'n sioc i'r system?

Olga: Oedd, oedd.

Tua faint o' dd 'na, chi'n meddwl?

Olga: Cant? Wyth deg? Cant?

Phyllis: Oedd, siwr o fod.

A beth amdano chi te Phyllis, pan ddechreuoach chi gynta' yn Machynlleth? O'ch chi wedi cael profiad tebyg. O'ch chi wedi cael lojins 'na?

Phyllis: Yr un peth. Oedd 'na lojins ar ein cyfer ni. Oedd tair o' ni'n siario yr un rŵm, yn yr un tŷ. Ddim 'run man ag Olga ond ar bwys ontyfe, ond mynd i'r ffactri. Hen ysgol o' dd hi. Wedi cau, a wedi cael ei confyrto wedyn i ffatri. O' dd e'n le mowr, swnllyd.

Beth o' dd yn neud y sŵn te? Y machines?

Phyllis: Y machines sydd â'r motors achos o' dd machines 'da nhw yn torri'r defnyddie, heblaw'r machines o' dd yn gwnio. Ar y dechre wedyn, o'n i'n cael pishin o ddefnydd a neud lein streit, ca'l gweld os o' ch chi'n gallu gwnio'n streit. 'Na'r dechre. A, o mewn yr un diwrnod, ne' tranno'th o' ch chi'n ca'l neud part o tabards o'n nhw ar y pryd, gwnio nhw, neud yr ysgwydde a pethe, a wedyn neud yr bias binding rownd yr edges a pethe. O' dd y training, 'chydig o draining oedd e, ond magu experience o' ch chi'n neud fel o' ch chi'n cael mwy o waith, neud mwy mewn diwrnod.

00.10.11: Wedoch chi bod e'n sioc i'r system, gethoch chi foment pan o'ch chi'n meddwl, o, chi'n gwibod, o'ch chi'n gweud bod nhw'n ych erbyn chi'n mynd gatre, o'ch chi'n meddwl, 'beth fi 'di neud'?

Phyllis: Na. Na. Pan fydda i wedi neud decision, that's it.

Beth amdano chi Olga? O'ch chi'n twmlo'n ..?

Olga: Wrth gerdded mewn i'r lle, o' dd e'n edrych mor fawr, fel o'n i'n gweud a shwd gymint o bobol, merched yn gwitho 'na. Ond, o' ch chi'n dod ato fe, gydag amser, o' dd.

O' dd dynon yn gwitho fan'na te?

Phyllis: O' dd rhai. O' dd rhai yn dynion o' dd yn torri'r defnydd, chi'n gwibod, o' dd e wedi cael ei leio allan, a dynion oedd wedyn wrth yr, fel machine fel llif o' dd e yn neud y siâp a pethe, a dynion oedd yn pacio ontyfe.

Olga: Ie. A helpu'r machines.

Phyllis: A, ie. Os o' dd machine wedi torri neu rwbeth, dynion oedd yn neud 'nny. Neu'r mwyafrif, merched o' dd yn machino i gyd.

00.11.13: Ond pwy oedd yn ych hyfforddi chi wedyn?

Phyllis: Un o'r merched oedd wedi dod lan yr un pryd â Olga oedd yn 'yn dysgu ni. Y grŵp es i o'n i'n grŵp o saith a hi oedd wedyn fel supervisor ontyfe yn gweud 'tho chi beth i neud, a faint i neud, a shwd i neud ontyfe. Oedd hi'n mynd o un i'r llall wedyn a o'n i'n saith ac o' dd hi'n cadw llygad ar bob un drw'r dydd wedyn.

00.11.44: A dim ond hyfforddi o'ch chi'n neud ar y dechre, chi'n gwibod?

Phyllis: Ie, ond o' ch chi'n cael dechre gwitho mewn ffordd, o'r diwrnod cynta', dim ond bod chi ddim yn galler neud gymint â beth o' dd y merched erill yn neud. Yn lle cymryd, weda i bum munud i neud rhywbeth, fydden i wedi cymryd deg munud i neud e. A practis wedyn o' dd yn dod â sbîd mewn i neud e'n gynt.

O'n nhw'n gosod rhyw fath o darged i chi te pyr'nny?

Phyllis: Dim ar y dechre, na. Dim ar y dechre. Na. Ond fel o’dd yr amser yn mynd ‘mla’n o’ch chi, wedi dod nôl i Llambed, o’n ni syposo neud wedyn so many o dwsenni yn y dydd. Ond dependo beth o’ch chi’n neud. Amser o’n i’n neud y tabards ‘ma, o’dd rheiny’n yn fach. Rhai plant o’n nhw. Wahanol pan o’ch chi’n neud ffroc i berson mwy ontyfe. A wedyn o’dd rhai yn neud y shoulders, o’dd rhai yn neud, fi’n cofio’r rhoid y sleeves mewn. Bues i’n neud lot a rhoid y zips mewn. O’dd pob un yn ‘i stage.

00.12.58: O’dd lot o wahanol mathe o ddillad ‘na te, nage jest neud un peth o’n nhw?

Phyllis: O’dd sawl gwahanol math o’dd e?

Olga: O’dd, o’dd. Neud ffroce a trowsus.

A beth am y merched, chi’n gwbod. Carioch chi ‘mla’n naddo fe. Ond o’dd rhai o’r merched yn teimlo bod nhw ffaelu neud y gwaith? Chi’n gwbod, o’dd e’n gam mowr nago’dd e, mynd lan fan’na i hyfforddi.

Phyllis. Oedd. Na, wy’n credu bod pob un wedi stico ati.

Olga: Oedd pob un, oedd. Dwi ddim yn cofio neb yn ..

Phyllis: Methu.

Olga: Na, na.

00.13.36: A shwd o’ch chi’n twmlo wedyn. O’ch chi’n dod nôl wedyn ar nos Wener, nagoch chi. O’ch chi’n dod gatre. Shwd o’ch chi’n twmlo pan o’ch chi’n dod gatre? O’ch chi’n dod nôl at ych teulu wedyn ife? A beth o’n nhw’n holi chi? O’n nhw’n holi chi beth o’ch chi wedi bod yn neud?

Phyllis: Ddim gymint â hynny.

Olga: Na, dim llawer, na.

Achos o’dd e’n gam eitha mowr pyr’nn y ferched i gael mynd off i witho o’dd e, enwedig gyda’r disgwyliade bod chi’n aros gatre falle.

Phyllis: Oedd. Oedd e’n gam ond hefyd o’n i wedi cael cynnig mynd i Llunden pan o’n i wedi gorffen yn yr ysgol. A na, o’dd e’n rhy bell.

Pwy o’dd yn gweud bod e’n rhy bell?

Phyllis: Fi. O’dd e’n rhy bell. O’n i ddim eisie mynd i dref, dinas fawr te. Na. Ond, wy’ di hanner dyfaru a hefyd ddim wedi dyfaru.

Beth o’dd y cynnig yn Llunden te? Beth bydde’r gwaith wedi bod?

Phyllis: Mynd i weithio mewn cegin. Coginio. So.

Oedd dileit ‘da chi mewn coginio?

Phyllis: O, o’dd. Ond meddwl mynd mor bell wrth bawb o’n i’n nabod fi’n credu o’dd e. Ond mynd i Machynlleth, o’ch chi’n dod nôl gatre. O’ch chi’n dod nôl at eich ffrindie.

00.15.03: A mewn ffordd o’dd Llunden yn bellach pyr’nn y o’dd e?

Phyllis: Wel, exactly. O’ch chi’n hala drw’r dydd i fynd ‘na i ddechre, ontyfe. Chi’n gwbod, byddech chi ddim nôl am flwyddyn.

Olga: O’n i’n gweld Machynlleth yn ddigon pell ar y pryd, nôl dechre’r whechdege.

Faint o amser o’ch chi’n hala i fynd i Machynlleth? Olga, faint o amser o’ch chi’n hala i fynd ‘na?

Olga: O’dd rhaid mynd o Gwrt Newydd i Llanybydder i ddal y trên, i ddechre. A mynd ar y trein i Aberystwyth. Aros ychydig falle’n Aberystwyth i’r, i trein Machynlleth. Tua faint o’dd yn hala?

Phyllis: Wy’ ddim yn gwbod. Bues i ddim ar neud hwnna.

Olga: Dwi inne ddim yn cofio’r amser hefyd.

Cwestiwn pwysig nawrte, ydych chi’n cofio faint o’ch chi’n ca’l pan ddechreuoch chi?

Faint o arian o’ch chi’n cael?

Phyllis: Fi’n cofio’n iawn. Peder punt yr wythnos.

A beth o’ch chi’n meddwl am ‘na te?

Phyllis: O’dd e’n grêt. Peder punt yr wthnos a’ch lojings, a travelling nôl a ‘mla’n.

00.16.05: A beth o’ch chi’n neud â’r arian?

Phylilis: Safio.

Faint ohono fe o’ch chi’n safio?

Phyllis: O’n i’n gallu safio’i hanner e, neu dri chwarter e.

O’ch chi’n rhoi peth gatre wedyn pan o’ch chi’n dod gatre?

Phyllis: Dim os allen i bido. Na, o’dd wedyn pan des i, dethon ni nôl wedyn i Llambed, pan agorodd y ffactri yn Llambed, o’n i’n dal i gael peder punt yr wythnos, ond o’dd punt i fynd ar y bys i fynd i’r gwaith.

O’ch chi’n waeth off te?

Phyllis: O’n i’n wa’th off o ran arian. O’en.

00.16.41: Faint o gyfnod o hyfforddi o’dd e man ‘nn y Machynlleth, Olga?

Olga: ‘Run peth a o’dd Phyllis yn gweud, o’n i’n cael tamed o ddefnydd ...

Faint o amser o’dd e? Faint o amser buoch chi?

Olga: Faint o amser buon ni? Dros flwyddyn.

Mae’n gyfnod hir ondywe, o dreino?

Olga: Ody. Blwyddyn, blwyddyn a hanner bron. Bues i o dy fla’n di, ti’n gweld.

Phyllis: Do, do.

Olga: Y rheswm pam o’dd aros i’r ffactri ma’ dod yn barod yn Llambed. Doedd y ffactri, bilding newydd oedd e. Yr adeilad chi’n gwbod. Un newydd. A aros i hwnnw. Pam o’dd hwnnw’n barod o’n i’n cael dod nôl.

00.17.25: O’ch chi’n barod i ddod nôl?

Olga: O’n. Odden.

00.17.28: O’ch chi’n gallu neud popeth erbyn ‘nn y?

Olga: Oedd, oedd, oedd.

00.17.34: A faint o amser buoch chi’n hyfforddi te Phyllis?

Phyllis: O mis Mai, whech deg dau nes bod hi yn, dethon ni nôl bwytu hydref whech deg dau, rhyw whech mis bues i yn Machynlleth. A ethon ni nôl i, bag and baggage wedyn, nôl i

Llambed. A dechre'r flwyddyn gethon ni eira a rhew a buodd y ffactri ar gau rhyw bump, chwech wythnos achos o'dd yr gwteri a'r pethe ddim wedi cau, a o'dd y dŵr wedi rhewi.

00.18.10: O'ch chi'n ca'l ych talu wedyn te?

Olga: Buon ni ar y dôl am whech wythnos.

O'dd y ffactri ddim yn talu chi te?

Olga: Na.

Achos, chi'n gwbod. Nage ych bai chi o'dd y tywydd.

Phyllis: Ar y dôl o'n ni am ryw bump, chwech wythnos.

So beth o'ch chi'n meddwl am 'na te?

Phyllis: Siwto fi'n gwd.

O'dd y ddwy ohonoch chi mas yr un pryd wedyn?

Phyllis: O'en.

Achos o'ch chi'n aros i'r ffactri?

Phyllis: Oedd, oedd. O'n i'n cael 'yn arian, 'yn dôl, am neud dim. O'n i gatre erbyn hyn a fi o'dd â'r llaw gore. O'dd y brawd wedi priodi, o'dd e ffaelud dod gatre i witho. So o'n i'n gwitho gatre a o'n i'n demando ca'l 'yn nhalu. So witho'dd hi'n gwd i fi. Y godre a'r wyn a'r pethe i gyd. So, a ffaelud mynd i ddim un man achos o'dd rhew a eira so o'ch chi ddim yn gallu hala'ch arian wedyn.

00.19.09: Wedyn 'nn y pan agorodd y ffatri yn y diwedd yn Llambed, ffatri newydd sbon o'dd hi te?

Olga: Ie.

Phyllis: Bilding newydd ie.

A beth o'dd y first impressions, argraff gynta' o'r ffactri newydd ma'. Pam o'ch chi'n Machynlleth hen ysgol o'dd hi nage fe. O'dd y lle ma'n Llambed yn newydd nagoedd e? Olga, gwedwch chi beth first impressions?

Olga: Yn Llambed. O'n i'n gyfarwydd nawr, o'n i'n hapus i gael bod nôl yn Llambed. O'n i'n gweld popeth yn mynd yn dda yn Llambed, oedd.

00.19.44: A beth amdano chi Phyllis?

Phyllis: Oedd y ffactri ei hunan, o'dd y llawr yn fawr ond ychydig o'en ni.

Faint o'ch chi, chi'n meddwl?

Phyllis: Wel, o'dd y grŵp o'dd Olga wedi mynd a'r grŵp o'n i wedi mynd, a wedyn o'dd merched, o'n nhw'n employo rhyw ddwy, dair bob rhyw bythefnos, dair, ma' rhagor yn dod mewn o hyd. So o'dd y llawr yn llanw wedyn, ond oedd e?

00.20.12: O'n nhw'n bobol, o'n nhw'n ferched o'ch chi'n nabod?

Phyllis: Rhai o'n nhw.

Olga: Rhai o'n nhw. Ie.

O le o'n nhw'n dod, rhan fwya' nhw?

Olga: O'r pentrefi o amgylch.

O amgylch Llambed?

Olga: Ie.

O'n nhw ddim yn dod o'r dre, fel 'nny te?

Phyllis: Na.

Olga: Na, dim nôl pyr'nn.

Chi'n cofio pwy bentrefi o'n nhw'n dod?

Phyllis: Wel, o'n nhw o Dregaron, Llanddewi, Felinfach, Abermeurig, Cellan, Cwrt Newydd, Llanybydder, o'n nhw'n pentrefi, allwch chi weud o deg milltir o amgylch Llambed.

Olga: Ie.

00.20.52: A fel o'n nhw'n dod i'r gwaith?

Olga: Wel, o'n i'n cael, o'n i ddim yn medru drifo wrth gwrs, dim yn drifo, yn cael lifft gyda rhywun arall oedd yn gwitho'n y dre. Dyna'r ffordd o'n i'n dod lan i'r gwaith o Cwrt Newydd. Dim bws yn mynd, na.

O'dd dim bws y gwaith yn mynd?

Olga: Dim yr adeg 'na, na.

Ond o'dd dim lot ohonoch chi 'na ar y pryd o'dd 'na?

Phyllis: Nago'dd.

O'dd y rhife wedi cynyddu wedyn fel o'dd amser yn mynd mla'n.

Phyllis: O'dd.

Olga: O'dd.

O'dd yr hyfforddi 'ma'n Machynlleth yn cario mla'n te? O'n nhw'n hala merched erill 'na wedyn?

Phyllis: Na, na.

Olga: I Llambed, wedyn.

Dim ond chi wedyn yn Llambed. Llambed oedd HQ wedyn ife?

Phyllis: Ie, ie.

00.21.42: A beth o'dd y dillad o'ch chi'n neud yn Llambed wedyn?

Phyllis: Ffroce fwya ontyfe. Ychydig bues i'n neud o drwseri.

Olga: Ie, ffroce o'n i'n neud fwya yn Llambed.

Phyllis: Ffroce grown ups wedyn.

Olga: Ie, ie. Pobol ifainc a ..

Ydych chi'n gallu disgrifio'ch diwrnod gwaith chi? Gwedwch chi, pwy amser o'ch chi'n dechre yn y bore?

Olga: Wyth o'n i'n meddwl, ni'n dwy. Ma'r cof yn pallu withe, ond wyth oedd yn dechre. Ie. Wel, unwaith o'ch chi'n y gwaith, cloco mewn. A wedyn mynd at y machine a dechre gweithio.

Phyllis: O'dd 'na rhyw ddeg muned o brêc yn y bore, o'dd e, a rhyw hanner awr amser cinio, a rhyw ddeg munud wedyn yn prynhawn.

A pwy amser o'ch chi'n cwpla wedyn?

Phyllis: O'n i'n cwpla 'bwytu pump.

O'dd e'n ddiwrnod eitha hir te?

Phyllis: Oedd.

Olga: O, oedd.

A fel o'ch chi'n cael ych talu man'nny? Oedd targets gyda chi?

Phyllis: Nago'dd.

Ne o'ch chi'n ca'l ych talu wrth yr awr?

Phyllis: Wrth yr awr o'dd e ontyfe.

Olga: A bob wthnos o'n i'n ca'l yn talu. Arian.

Phyllis: Ca'l arian wedyn, dim siec na dim byd. Arian. Arian, yr hen arian oedd pyr'nny, ontyfe.

Chi'n cofio faint, peder punt o'dd e man'nny hefyd. O'dd dynon yn gwitho 'na hefyd nes mla'n?

Phyllis: Nago'dd dim ar y dechre. Dim ond un o'dd yn neud, o'dd yn riparo'r machines ambell waith.

Olga: O'dd e'n dod lawr o Fachynlleth. A fe o'dd yn ein drifo ni nôl a 'mla'n o Machynlleth. Ie.

A shwd o'ch chi'n twmlo bod chi'n gweithio fan 'na. O'ch chi'n proud? O'ch chi wedi bod i Fachynlleth, o'ch chi 'di cael y treino 'ma. O'ch chi wedi mynd nôl i Llambled wedyn. O'ch chi ar arian itha da nagoch chi? Shwd o'ch chi'n twmlo?

Phyllis: O'dd dyn digon hapus.

Olga: O'dd inne'n ddigon hapus hefyd.

A beth oedd agwedd pobol erill atoch chi? O'ch chi'n menywod independent nawr och chi?

Phyllis: Na, o'dd y cwbwl yn iawn. O'dd dim problem fel 'nny o gwbl ontyfe.

Ife merched singel o'dd 'na te, merched dibriod.

Phyllis: Ie

Olga: Ie.

Phyllis: 'Na'r unig fenyw briod o'dd 'na o'dd Mrs Morgan o'dd yn y cantîn. Hi oedd yn neud y te.

Ond o'dd y merched i gyd o'dd 'na wedi cael y treino 'ma o'n nhw? O'n nhw i gyd wedi bod i Fachynlleth?

Phyllis: O nagon.

Olga: Dim ond ni. Dod mewn i Llambled a wedyn o'n nhw'n cael 'u dysgu yn Llambled.

Phyllis: Ychydig o training o'dd e mewn ffordd. O'dd e'n mwy o ca'l chi i neud y gwaith ontyfe. Unwaith o'ch chi'n gallu handlo'r machine o'ch chi mewn yn prodiwso streit awê mewn ffordd. Ond bod e'n cymryd mwy o amser, mwy o amser i neud pob peth, a fwya o'ch chi'n neud ffastach o'ch chi'n mynd ar y machine.

00.24.58: O’dd unrhyw gyfle ‘da chi ca’l codiad cyflog wedyn ‘nn y fel o’dd amser yn mynd ‘mla’n?

Phyllis: Bownd o fod.

Olga: Siwr o fod.

Phyllis: Fi ddim yn cofio hynny.

Olga: Falle bod e’n codi, rhyw …

Phyllis: ‘Chydig fydd fe.

Olga: Pump swllt, rhywbeth fel ‘nn y. Ychydig, ie. Dw inne ddim yn cofio.

Ac oedd pawb yn cael yr un peth? Yr un cyflog ne’ o’dd wahanol grades?

Phyllis: Fydden i’n meddwl o’dd y supervisor siwr o fod yn ca’l mwy.

Olga: Ie, ie.

Phyllis: Fydden i’n meddwl ‘nn y.

Menyw o’dd y supervisor ife?

Phyllis: Ie.

O’dd shwd beth â Undeb i gael pyr’nn y?

Phyllis: Na, dim.

Olga: Na, dim pam o’n i’n gwitho’n Llambed, na.

Daeth ddim un nes mla’n, falle da’th un pan o’dd Slimma ‘na falle?

Phyllis.

Os o’dd unrhyw broblem ‘da chi te, ne’ unrhywbeth ddim yn gwitho mas beth o’ch chi’n neud te? O’ch chi’n gallu siarad â rhywun ‘na.

Phyllis: Wel, o’dd ‘da ni manager i gael.

Olga: Oedd.

Phyllis: Mrs Lewis oedd hi. Na, fi ddim yn meddwl bod…

Olga: O’dd dim probleme sa i’n credu.

Phyllis: Nagoedd.

Olga: O’n i’n bobol bach rhwydd iawn i weithio yr adeg ‘na wy’n meddwl.

Phyllis: Grin and bear it oedd hi ontyfe?

Olga: Ie. Na. Do’n i ddim yn gwbot llawer am undebe a pethe, fi.

Phyllis: Na, na, do’n inne ddim hefyd, mor bell â nn y. Nagoedd.

00.26.29: Byddech chi wedi disgrifio nhw fel cyflogwyr teg te? O’n nhw’n eitha teg?

Ne’ o’dd rhai pethe’n poeni chi?

Phyllis: Wy’m yn credu oedd dim byd yn poeni ond o’ch chi ddim wedi cael eich cyflogi gan neb arall so o’ch chi ddim yn gallu cymharu fe, mewn un ffordd.

Olga: Na, ti’n iawn.

Ie, ma’ hwnna’n bwynt da. Oedd unrhyw ‘perks’ i gael ‘da nhw. Chi’n gwbod, o’n nhw’n dda yn gwobrwyd chi. Ma’ rhai llefydd, oeddech chi’n gallu prynu ‘seconds’ a pethach fel ‘na. Oedd ‘na unrhywbeth gyda chi fan’na yn Cardwells?

Phyllis: ‘Na’r unig beth o’n i’n galler prynu, a o’n nhw’n rhatach, o’ch chi’n gallu prynu defnydd.

Olga: Ie, ti siwr o fod yn iawn.

Phyllis: Nes i lawer i sgert o ddefnydd o'n i wedi, o'dd dim off-cuts, ond mewn ffordd off-cuts o'en nhw.

Olga: Dyna'r gair o'n i'n meddwl dweud.

Phyllis: Oedd rheiny am ail i ddim.

00.27.25: O'ch chi'n gweud bod chi'n neud ambell i sgert Phyllis, i chi'ch hunan neu i bobol erill.

Phyllis: I fi'n hunan. Ie.

00.27.36: O'ch chi'n gorfod gwishgo rhywbeth arbennig 'na?

Olga: Overalls.

Phyllis: Overall, ie.

Olga: Lliw leilac 'ma.

Phyllis: Leilac, ie.

O'n nhw'n rhoi rheina i chi?

Phyllis: O'en.

Olga: O'n, o'dd.

Phyllis: Wedi meddwl, o'en.

00.27.56: A chi o'dd yn golchi nhw eich hunain neu o'n nhw'n (neud)?

Olga: Ni oedd yn golchi.

Phyllis: Ni oedd yn gyfrifol am hynny.

Olga: Neilon o'n nhw.

Phyllis: Ie, neilon o'n nhw.

00.28.04: Ond o'dd y gwaith ddim yn frwnt, chi'n gwbod ma' rhai ffactriöedd oedd y gwaith yn frwnt, ond yn amlwg dillad o'ch chi'n neud.

Phyllis/Olga: Ie.

Oedd 'na unrhyw amode, unrhyw conditions yn y ffactri yn peri gofid i chi?

Phyllis: Na.

Olga: Na, nago'dd. Wy' ffael� meddwl.

00.28.24: O'dd 'na unrhywun yn cael accidents weithie, chi'n gwbod gyda gwnio mae ambell i bys yn..

Olga: Nodwydd.

Phyllis: Wy'n cofio, a fi ddim yn cofio pwy oedd y ferch, yn Llambbed o'n i. A'th y nodwydd trwy'i bys hi. Fi'n cofio 'nny'n iawn, a tynnu'r nodwydd mas o'r machine, a dod lan â hi i syrjeri'r doctor yn Llambbed i dynnu'r nodwydd allan.

Jiw, jiw.

Phyllis: Fi'n cofio 'nny.

Chi ddim yn squeamish te?

Phyllis: Na. Fi ffael� cofio pwy oedd hi. Un o'r merched oedd wedi dechre.

Oedd y nodwydd dal yn y bys?

Phyllis: Oedd y nodwydd dal yn y bys yn mynd mewn i'r syrjeri.

Olga: Na, o'dd dim damweinie erill i ga'l.

Phyllis: Nago'dd, dim byd.

Digwyddodd dim byd i chi te?

Olga: Dwi i ddim yn cofio dim un damwain. O'r nodwydd yn mynd jyst i'ch bys chi, i'ch gewin chi ambell waith. Ond dim byd mawr.

Beth o'ch chi'n neud os o'dd hwnna'n digwydd te?

Olga: Jyst wedi mynd mewn i'r gewin wnaeth e gyda fi rhywbryd, neu unwaith neu ddwy. O, chi jyst yn cario 'mlaen.

Phyllis: Cario 'mla'n bron ontyfe.

O'ch chi ddim yn sgrechen dros y lle i gyd?

Olga: Na, o, na.

00.29.39: Ydych chi'n cofio beth, os oedd unrhyw reolau gyda'r ffactri? Rules neu regulations neu unrhywbeth fel 'na? Chi'n gwbed, oedd rhai llefydd yn strict iawn. Oedd e fel 'na gyda chi? Neu o'n nhw'n weddol?

Phyllis: Na, o'n nhw'n eitha da. Ond oedden nhw? Se rhywun yn hwyr yn cyrraedd, neu, oedd dim lot o broblem oedd e?

Olga: Na, sa i'n gallu cofio unrhyw brobleme.

Phyllis: Nago'dd. Ni bownd o fod yn bobol bach ...

O'ch chi'n gorfod cloco mewn? Beth os o'n nhw'n hwyr te? O'n nhw'n colli arian?

Phyllis: Ddim bod fi'n cofio 'nny.

Olga: Na, sa inne'n cofio.

Phyllis: Na, o'ch chi'n cloco mewn ac yn cloco allan. Na, dim bod fi'n cofio bod nhw'n strict fel 'nny.

Olga: Na.

Ac o'ch chi wedi mynd i weithio mewn ffatri newydd, shwd beth o'dd y cyfleustere 'na?

Phyllis: Wel, y cwbwl, dim ond basic oedd hi ontyfe? Wel, oedd 'na gantîn i gael. O'ch chi'n cael, o'n i'n cael y te ne o'n i'n prynu fe? O'n i'n dod â sandwejes ein hunen.

Olga: Oedd. Cael y te? Dwi i ddim yn cofio.

Phyllis: Na, finne ddim yn cofio chwaith.

Oedd cinio i gael 'na te?

Phyllis: Na.

Olga: Na, na. Dim ciniawe.

Phyllis: Nagoedd.

O'ch chi'n dod â bwyd?

Phyllis: O'ch chi'n dod â sandwejes a o'n i siwr o fod yn cael y te.

Olga: Siwr o fod.

O'n nhw'n dod rownd â fe ne o'ch chi'n mynd i gael e? Achos oedd defnydd a pethe oedd e?

Olga: Na o'ch chi ddim yn byta ar bwys ...

Phyllis: O'ch chi'n mynd i'r cantîn ontyfe.

Olga: Oedd cloakroom 'na i gadw cotie a pethe.

Phyllis: Oedd. Cloakroom a toilets a pethe

00.31.22: Oedd rhai ‘na oedd ffaelu neud y gwaith?

Phyllis: Na, sa i’n credu. Sa i’n cofio bod neb wedi ffaelu. Ambell un ddim yn lico’r gwaith.

00.31.33: Pam bydden nhw ddim yn licoo’r gwaith te?

Phyllis: Wel, jest ddim beth o’n nhw ddim wedi meddwl beth oedd e falle.

Ond gwnïo yw gwnïo nage fe?

Phyllis: Ie, ond oedd rhai wedyn yn smwddio, a oedd rhai yn paco.

Olga: Oedd.

Phyllis: Chi’n gwbot, falle bydde rhywun ddim yn lico ar y machine ond oedden nhw’n iawn ar y smwddio.

O’n nhw’n cael eu symud rownd wedyn?

Phyllis: Dim ond gofyn, ac o’ch chi’n cael shifft wedyn os o’ch chi’n moyn.

Ond o’ch chi’n cael llai o arian yn smwddio, achos ma’ gwaith gwnïo, mae’n skilled ondywe?

Phyllis: Sa i’n gwbot.

Olga: A finne ddim yn gwbot.

Phyllis: Fydden i’n meddwl bod pawb ar y basic, os nag o’ch chi yn supervisor neu rywbeth fel ‘nnyn.

00.32.20: O’ch chi’n gweud bod e’n swnllyd iawn ‘na, o’ch chi’n gallu siarad pan o’ch chi’n gweithio, ne’ oedd gormod o sŵn?

Phyllis: Ddim gwmint â ‘nnyn.

Olga: Oedd miwsig yn mynd te?

Phyllis: Oedd.

Olga: Ar ôl meddwl oedd miwsig yn cael i, on’dooedd.

Beth oedd e? Radio?

Phyllis: Ie.

Olga: Bownd o fod, radio.

Chi’n cofio pwysianel oedd e?

Phyllis: Nadyn.

Radio One?

Olga: O’dd dim i gael yntek.

O’ch chi’n canu’n gwaith te?

Olga: O’dd neb yn canu.

O’dd neb yn canu, jiw, jiw!

Olga: Neb yn canu, na. Nago’dd. Ond oedd ‘na fiwsig, wy’n siwr, oedd hi te.

Phyllis: Wy’n credu bod ti’n iawn. Ody.

O’ch chi’n gallu dewis pwysianel o’ch chi’n moyn?

Olga: Na.

Phyllis: Na, na. Wel, oedd yn Machynlleth, ond wy' ddim yn cofio oedd e'n Llambed.
Olga: Ie, ym Machynlleth oedd y miwsig falle.

Phyllis: Ie.

Olga: Wel, ni ddim yn cofio yn Llambed.

Mae'n olreit, mae'n iawn. Chi'n gwbod heddi nawr, ma' rhai cwmnioedd yn strict am Health and Safety ife, Iechyd a Diogelwch, beth am pyr'nn y te? O'n nhw'n strict man'nn?

Olga: Dim llawer o sôn.

O'dd dim sôn am hwnna pyr'nn?

Olga: Am, am Health and Safety sen i'n meddwl.

Phyllis: Nago'dd.

00.33.41: Ond gyda gwnio, chi'n gwbod o'ch chi'n sôn gynne, am gael nodwydd yn y bys, sdim lot, allwch chi byth ag osgoi hwnna allwch chi.

Olga: Ambell waith bydde fe'n digwydd ond, ie.

Pam o'ch chi yn cael cyfle i gael chat am beth bydde chi'n clebran?

Phyllis: Fi ddim yn cofio.

Olga: Amser te ne rwbeth nawr.

Phyllis: Ie, ble o'dd dyn yn mynd, neu ble oedd dyn wedi bod, ne' sa i'n gwbod.

Olga: Rhywbeth fel 'na, siwr o fod.

O'ch chi'n cymdeithasu gyda'ch gilydd fel merched tu fas y gwaith te?

Phyllis: Na.

Olga: Dim llawer, na. Achos oedd pob un yn byw mewn gwahanol ardal, gwahanol bentre'. Mae'n rhyfedd.

Pwy iaith o'ch chi'n siarad yn y gwaith?

Olga: Cymraeg.

Phyllis: Cymraeg rhan fwya.

Oedd e'n awyrgylch cartrefol wedech chi, neu oedd e'n teimlo bach yn ddiethr?

Olga: Digon cartrefol weden i.

Phyllis: Oedd, oedd. Oedd dyn yn teimlo mwy dieirth yn Machynlleth. Oedd eu Cymraeg nhw yn wahanol i'n Cymraeg ni.

Olga: A mwy o Saesneg.

Phyllis: Mwy Seisnigedd. Na, oedd hi'n fwy cartrefol yn Llambed. Definite, oedd.

00.35.06: Oedd tynnu coes 'na te? O'ch chi'n tynnu coese'ch gilydd?

Phyllis: So much, ontyfe.

Olga: Siwr o fod.

Phyllis: Oedd pawb ddigon, oedd dim lot o bitchiness 'na.

Olga: Nagoedd, na.

O'ch chi'n teimlo bod pwyse arnoch chi i gwblhau'r gwaith?

Phyllis: Oedd hi ddim yn ddrwg pry'nn y oedd hi?

Olga: Nagoedd.

Phyllis: Ambell waith iawn fydde, rhyw ddwy waith fi'n credu bod fi 'di gorfod neud e, aros 'mla'n achos bod eisiau'r order i fynd off. Chi'n gwbod, byddech chi'n aros 'mla'n rhyw awr neu ddwy yn nos er mwyn bod yr ordor wedi'i neud, ontyfe, ond o'dd e ddim yn digwydd yn amal. Oedd dyn yn dod i ben a ca'l e erbyn pryd bynnag o'dd e fod yn barod, ontyfe.

00.35.56: O'ch chi'n gwnio tu fas y gwaith wedyn? Chi'n gwbod o'ch chi'n gwnio'n gwaith drw'r dydd, erbyn bod chi'n mynd gatre wedyn o'ch chi'n neud ambell i beth?

Phyllis: Ambell un. Ambell i beth, oedd.

Achos chi'n gallu mynd yn ffed yp o wnio trw'r dydd 'fyd y'ch chi?

Phyllis: Os o'n i eisie, os o'n i wedi cael defnydd, a oedd eisie rhywbeth neud rhywbeth, oedd dyn yn neud e.

Oedd pobol yn gofyn i chi neud pethach iddyn nhw?

Olga: Dim pryd'nny, na.

Phyllis: Na, ond wedi gorffen 'na bues i'n neud lot o waith gwnio.

Olga: Do. Fues i hefyd. Yn neud alterations, 'na'r gair Saesneg, i bobol oedd yn byw yn y pentre, ar ôl priodi.

Oedd eich amgylchiadau chi wedi newid tra bod chi 'na, chi'n gwbod, o'ch chi wedi cwrdd a rhywun a priodi, neu digwyddodd unrhywbeth fel 'na tra bod chi 'na?

Olga: Na, dim trwy'r gwaith, wrth gwrs, nage fe.

Ond yn ystod y cyfnod o'ch chi 'na?

Olga: Ie, oedd dyn wedi cwrdd a rhywun.

O'ch chi wedi priodi pan o'ch chi'n gweithio?

Olga: O'n i wedi gorffen amser priodi.

00.37.03: So priodoch chi a wedyn cwpla ife?

Olga: Bues i ddim yn gwitho ar ôl 'nny, na. A ti?

Phyllis: Bues i nôl am gwpwl o wythnose ar ôl priodi.

00.37.17: Ond pam cwpla ar ôl priodi te?

Wel, oedd dyn yn disgwyl wedyn a magu plentyn ontyfe.

Ond o'ch chi wedi dod i ddisghwl cyn, o'ch chi ddim wedi priodi a gweud, reit fi'n gorffen nawr, o'ch chi wedi cario 'mla'n nes bod chi'n disgwyl ife?

Olga: Ie.

Phyllis: Ie. Oedd dyn yn disgwyl a wedyn, oedd pob un pryd'nny, pan o'ch chi'n priodi oedd plant, plentyn neu plant, a oedd y fam wastod gartre wedyn yn magu'r plant. Oedd dim mynd nôl wedyn.

Ond shwd o'ch chi'n teimlo am 'na te?

Phyllis: O'n i'n ddigon hapus.

Olga: Oedd.

Phyllis: Prynes i machine gwnio a bues i'n neud gwaith gatre wedyn.

Ethoch chi ddim nôl i witho ar ôl 'nny?

Phyllis: Naddo. Es i ddim nôl o gwbwl wedyn ‘nnny, naddo.

Olga: Dim un o’ ni.

00.38.01: A pan o’ch chi’n gwitho ‘na sawl diwrnod yr wythnos o’ch chi’n gwitho?

Olga: Pump.

Dydd Llun i ddydd Gwener? A oedd cyfle i weithio ar ddydd Sadwrn weithie?

Oedd rhai ffactris yn neud dydd Sadwrn, falle dim Cardwells.

Phyllis: Na.

00.38.20: A oedd shiffts ‘na yr adeg ‘nnny?

Phyllis: Na.

Olga: Na.

Dim shiffts. Dim ond shifft dydd te.

Olga: Ie.

Phyllis: Ie.

A pan o’ch chi wedi cwpla’ch gwaith, o’ch chi’n gallu mynd gatre a ‘na fe ife?

Phyllis: That’s it.

A o’ch chi’n gweud bod system o cloco mewn. Oedd rhai’n gallu tsieto te, nage chi, wrth gwrs, ond rhai eraill? Oedd rhai’n gallu cloco mewn dros rywun arall?

Olga: Na, sen i ddim yn meddwl ‘nnny.

Phyllis: Wrth gwrs, chweld, faint o’n i, o’n i ugain, deg ar hugen, oedd pawb yn gwybod pwy oedd ‘na a pwy oedd ddim ‘na, mewn ffordd. O’ch chi ddim mewn grŵp mawr, mawr, chweld.

00.39.00: Oedd ‘na ffactris eraill yn yr ardal? Gwedwch chi bod rhywun yn ffed yp o weithio man’na nawr, beth oedd y dewis iddyn nhw? Oedd ‘na dewis fynd i weithio rhywle arall?

Phyllis: Dim teip ‘na o ffactri. Aeth rhai merched o Cardwells i weithio yn y siope, ontyfe.

Olga: Do, do, do, rhai, siope’r dre.

Phyllis: Siope’r dre, ie.

Shwd oedd yr arian yn cymharu wedyn?

Phyllis: Fi ddim yn gwbod.

Olga: Na fi.

Phyllis: Wy’ ddim yn gwbod.

Ond pam bydde nhw wedi mynd i witho’n siop yn lle ‘nnny chi’n meddwl?

Phyllis: Wel, jest o’n nhw eisie chenj, ne meddwl bod nhw’n gweld man gwyn man draw.

Oedd rhai’n dod nôl wedyn?

Phyllis: Ddim gymint a fi’n wbod, naddo.

Beth am wyliau wedyn, chi’n cofio faint o wylie o’ch chi’n cael bob blwyddyn?

Phyllis: Pythefnos?

Olga: Ie, pythefnos o’n i’n mynd i weud.

Pryd oedd y pythefnos?

Phyllis: Yn mis Awst.

Olga: Yn yr haf, ie.

Oedd y cwbwl lot yn mynd off yr un pryd?

Phyllis: Oedd y ffactri'n cau.

Olga: Oedd.

Shut down ife?

Phyllis: Ie, shut down.

A pan o'ch chi'n cael ych gwylie wedyn, o'ch chi'n mynd bant neu o'ch chi'n aros gartre?

Phyllis/Olga: Na, ddim mynd bant!

Olga: Oedd dim sôn am neb yn mynd i Sbaen. Na, jest adre. A mynd ambell i, fel i Aberystwyth falle, ne' lawr i Gaerfyddin. Rhywbeth bach, dim byd.

O'dd trips weithie'n mynd o'r gwaith i rywle te?

Olga: Dim 'da Cardwells.

Dim charabang yn mynd rhywle?

Phyllis: Na, na.

Jiw, o'n nhw ddim yn trefnu lot i chi o'n nhw? Daeth hwnna'n hwyrach falle dofe?

00.40.58: Pryd o'ch chi'n gadael y tŷ yn y bore, chi'n cofio?

Olga, pwy amser byddech chi'n gadael y tŷ?

Olga: Tua chwarter i wyth, ffor' 'na. Wel, ie. Ie, tua chwarter i wyth, wel, na ychydig yn gynt. Oedd rhaid i fi gerdded lawr i'r pentre. Tua ugain muned i wyth.

Fel o'ch chi Phyllis yn mynd i'r gwaith te?

Phyllis: O'n i'n dala'r bys am gquarter wedi saith. So bydden i wedi gadael y tŷ, siwr o fod, cquarter i saith.

Oedd e'n hala sbel i fynd o'r ..

Phyllis: Oedd hi'n hala sbel i fynd i gerdded i gwrdd â'r bys. A wedyn trafeilu lan i Llambled. Oedd.

00.41.45: Shwd o'ch chi'n teimlo'n y nos wedyn 'nn y ar ôl cwpla gwaith? O'ch chi'n flinedig?

Phyllis: Na, dim rili, na.

O'ch chi ddim yn flat out yn y nos, wedi dod gatre?

Phyllis: Na.

Olga: O'n i'n gorfod aros yn Llambled, tan chwech. Am chwech oedd yn lifft i'n mynd adre. A dyna amser hir oedd, wedi cerdded o'r ffatri, gorffen am bump. A o'n i'n cael cwpaned o de, neu coffi yn Aeron Dairies. Un caffi bach yn dre, fan'na. O'n i'n gweld hwnna'n amser hir, ddim yn gallu mynd gatre'n streit o'r gwaith.

00.42.17: O'n nhw'n trefnu rhwbeth i chi amser Nadolig te neu o'ch chi'n cael rhywbedd gyda nhw? O'ch chi ddim yn cael twrci neu rywbedd fel 'na?

Phyllis: Na, na. Sa i'n credu bod dim cino Nadolig na dim byd.

Olga: Dim byd. Na, na.

00.42.35: Beth oedd y peth gore am weithio 'na te, wedech chi? Olga, gwedwch chi beth oedd y peth gore am gwitho 'na?

Olga: O'r merched, y ffrindie. Oedd pawb yn gysurus. O'n i'n cael tipyn bach o hwyl o'n ni.

A beth amdanoch chi Phyllis? Beth o'ch chi'n meddwl?

Phyllis: Ie, o'dd dyn yn, wel a gweud y gwir, ma' dyn wedi gwneud ffrindie pry'nn y a still yn cadw in touch â ambell un. Ne' hapno gweld ne' gwbod 'u hanes nhw ontyfe.

00.43.00: Odych chi'n falch bod chi wedi bod yn gweithio 'na?

Olga: O, odw. Odw.

Phyllis: O'dd e'n brofiad oedd e. Dyw dyn ddim yn anghofio pethe fel 'nn y.

00.43.14: Felly, se chi ddim wedi mynd fan'na, odych chi'n gallu meddwl am rywbedd arall byddech chi 'di neud? O'ch chi Phyllis yn gweud bod cyfle wedi dod i fynd i Lunden, ond troioch chi hwnna lawr. Oedd 'na rwbedd arall licech chi wedi'i neud?

Phyllis: Sa i'n gwbod. Na, wy ddim yn meddwl.

Beth amdanoch chi Olga?

Olga: Na, nôl yn y cyfnod 'na, o'ch chi ddim yn meddwl. Fel ma' pobol heddi' yn meddwl falle 'mla'n beth licen i neud.

Ond pan o'ch chi'n ferched ifainc yn ysgol beth o'ch chi'n meddwl o'dd o'ch blaene chi te? O'ch chi Phyllis yn gobeithio taw nage aros gartre ar y ffarm o'dd e?

Phyllis: Fi'n dal i (?), fi'n ffond iawn o greaduried. Ond gwitho a edrych ar ôl creaduried o'n i wrth 'y modd. Fi'n cyfadde 'nn y ontyfe. Ond na, ma' dyn yn symud 'mla'n.

Ydych chi'n gallu meddwl am unrhyw ddigwyddiad ne' unrhyw achlysur arbennig yn y ffactri sy'n aros yn eich cof chi? Allwch chi gymryd eiliad i feddwl nawr. Oes unrhyw beth arbennig? O'ch chi'n decoreto amser Nadolig a pethach fel 'na?

Phyllis: Na.

Oedd dim tipyn o ffys 'na?

Phyllis: Nago'dd.

00.44.34: Oedd y niferoedd, achos o'ch chi'n ffatri fach nagoch chi, oedd y niferoedd wedi dechre cynyddu erbyn bod chi'n gadael? Oedd mwy 'na pam o'ch chi'n gadael?

Olga: Oedd.

Phyllis: Oedd. O'n nhw'n cymryd rhagor mewn o hyd. Fel oedd e'n dependo faint o ordors oedd yn dod mewn a trwy hynny wedyn o'n nhw'n cymryd merched newydd mewn. Ne se rhai'n gorffen, wel oedd rhai'n dod yn 'u lle nhw.

Oedd naws y ffactri'n newid wedyn? Oedd yr awyrgylch yn wahanol fel oedd y merched yn newid?

Phyllis: Na.

Olga: Na, nagoedd.

Phyllis: Nagoedd.

A pwy oedd y big boss ‘na te? Pwy oedd y boss drosto chi i gyd?

Phyllis: Ie, Mrs Lewis oedd hi.

Olga: Yn Llambed, ie. Mrs Lewis.

Phyllis: Fel manageress, ie.

O le oedd hi’n dod te?

Olga: O Llambed.

Rhywun lleol oedd hi?

Olga: Ie.

Oedd hi’n siarad Cymraeg â chi?

Olga: Oedd.

Phyllis: Oedd.

Olga: Cymraeg oedd hi.

00.45.33: Oedd hi’n dod rownd i siecio’r gwaith?

Olga: Oedd.

Phyllis: Oedd.

Olga: A’r supervisors, ie.

Beth oedd ei chefndir hi te?

Olga: Gwnio oedd hi, seamstress oedd hi. Oedd hi’n hŷn yn’oedd? Faint oedd Mrs Lewis?

Oedd Mrs Lewis dipyn hŷn na ni.

Phyllis: Wel oedd ei phlant hi ...

Olga: ... ‘run oedran â ni, mewn ffordd ond’oedd hi.

00.46.02: O ran cymdeithasu, o’ch chi’n gweud bod chi ffaelu cymdeithasu gyda’ch gilydd tu fas y gwaith, o’ch chi ddim yn byw yn ddigon agos i’ch gilydd. Ond fel o’ch chi’n dod yn agos wedyn te? Chi’n gwibod, o’ch chi’n gweud bod awyrgylch da ‘na, bod chi i gyd yn ffrindie?

Olga: Trw’r gwaith ontyfe. Jest trwy’r gwaith.

Oedd rhywfaint o helpu’ch gilydd gyda’r gwaith? Chi’n gwibod, gwedwch chi bod rhywun tu ôl, ne’ angen help ar rywun o’ch chi’n gallu mynd draw i helpu rhywun arall, neu oedd gofyn bod chi’n aros ble o’ch chi?

Phyllis: Na, os oedd rhywun â probleme ‘da nhw y supervisor oedd yn helpu nhw allan, wedyn.

Sawl supervisor oedd ‘na te?

Olga: Dwi i ddim yn cofio pwy o’n nhw.

Phyllis: Wy’n cofio Val yn iawn ontyfe. Val oedd fwya ontyfe.

Olga: Dechreuoedd ‘run pryd â ni.

Phyllis: Ie. Fel sech chi’n gweud, dwy neu tair lein a oedd yr un supervisor yn gofalu am rheiny wedyn.

00.47.10: O’ch chi’n gweld y gwaith yn undonnoig weithie?

Olga: O'n i'n cael, na dwi ddim yn meddw undonnog. O'ch chi'n cael gwneud gwahanol part, chi'n gwbed. O'ch chi ddim yn cael neud yr un part drwy'r amser. O'n i?
Phyllis: Na, oedd e ddim yn undonnog, nago'dd dim rili. Falle byddech chi am wythnos yn neud yr un peth ond erbyn wythnos ar ôl 'nn y fydde wahanol ordor wedi dod mewn, o'ch chi'n neud rhywbed wahanol wedyn.

00.47.39: O'ch chi'n teimlo bod e'n 'rewarding', chi'n gwbed, gweld y stwff yn cael ei neud achos o'ch chi'n cynhyrchu rhywbed o'ch chi.

Phyllis: Oedd. Oedd, yn amal byddech chi wedi bod yn neud rhywbed yn y ffactri, gwedwch yn y Gwanwyn, a erbyn diwedd y flwyddyn byddech chi'n gweld beth y'ch chi wedi neud tro hyn yn, am rywun wedi prynu yn, yn wahanol siope yntyfe. O'ch chi'n meddwl, o, a gath hwnna ei neud yn Llambled, neu pwyl ffactri oedd hwnna wedi cael ei neud. Oedd hwn'ny. O'ch chi'n nabod y defnydd.

00.48.25: I'r ddwy o'ch chi nawr o'ch chi'n gweud bod chi'n gadael pan o'ch chi'n cael plant, so o'ch chi'n disgwyl. Pwy mor 'mlaen o'ch chi pan o'ch chi'n cwpla wedyn? Neu beth oedd yn digwydd pan o'ch chi'n ffeindio mas bod chi'n disgwyl. O'ch chi'n gweud 'tho'r supervisor, ne' o'ch chi'n gweud 'tho'r bosys, reit, wel ma' hyn 'mla'n 'da fi nawr a fyddai'n gorffen. Beth oedd yn digwydd?

Phyllis: Mynd yn sâl nes i, a gorfod cael certificate doctor. So oedd dyn yn gorffen wedyn ontyfe.

Olga: Chi'n gwbed, yr un peth yn gywir. Mynd yn sâl, cael certificate doctor ar ôl cwpwl o wythnosau a gorffen. Wir.

00.49.17: A shwd o'ch chi'n teimlo ar ôl gorffen te?

Olga: O'n i'n eitha hapus, yn gweld eisie cwmni'r merched.

Phyllis: Wel o'ch chi'n mynd i? arall, at rywbed arall, rhywbed i edrych 'mlaen, ontyfe.

O'ch chi'n neud jobyn pwysig arall wedyn o'ch chi?

Olga: Dyna fel o'dd hi dechre'r whechdege. Pan o'ch chi'n cael plant, o'ch chi'n aros adre gyda'r plant.

Oedd rhai ddim yn mynd nôl wedyn, ar ôl 'nn?

Phyllis: Nes i ddim considro'r peth.

Olga: Na, na inne.

Phyllis: Nes i ddim considro mynd nôl i weithio.

00.50.01: Edrych nôl nawr, shwd y'ch chi'n teimlo am y cyfnod buoch chi gyda Cardwells? Os ma' rhaid i chi symo fe lan, gwedwch, shwd byddech chi yn disgrifio fe?

Phyllis: Nes i enjoio fe. Oedd e'n ffordd arall o fyw, mewn ffordd ontyfe.

I gymharu â beth?

Phyllis: A bod gatre ar y ffarm. Oedd.

Beth amdanoch chi Olga?

Olga: Ie, 'run peth. Achos pan es i i baco'r wye 'ma, doeddwn i ddim yn 'i hoffi fe o gwbl, ond oedd e'n hollol wahanol i weithio'n y ffactri. A gwneud y dillad a gweld beth o'ch chi wedi neud ar y diwedd.

00.50.42: Oedd e wedi rhoi dihangfa i chi?

Olga: Oedd.

Phyllis: Satisfaction.

Sdim lot yn gallu gweud ‘na nawr, os e? Job satisfaction. Grêt. Diolch yn fowr i'r ddwy ohonoch chi. Diolch yn fowr.

English summary

Cardwells, Machynlleth & Cardwells, Lampeter (early 1960s)

Interviewees: **VSW010 Phyllis Eldridge & Olwen Thomas**

Date: **27.11.13**

Interviewer: **Susan Roberts on behalf of Women's Archive of Wales**

Phyllis' maiden name was Phyllis Davies. She was born on 2nd January, 1943.

Olga was born on 9th September, 1944.

Phyllis was born in Ciliau Aeron. Her father was a farmer, and her mother helped on the farm. She had older siblings that had left home, apart from one brother who worked on the farm. After Phyllis left school she was at home for three years. She was happy enough at home but wasn't earning her own money. She saw an advertisement in the paper saying they wanted trainee machinists to work in Lampeter and went for an interview.

She had left school at sixteen years old. Living at home meant she had all the food and clothes that she needed but she felt bitter that she had to beg for money if she wanted money to go anywhere. She helped her Auntie with the dusting and mopping for a few shillings, and this was Phyllis's pocket money. She wanted more than this.

The interview for the machinists' job was with Cardwells and was held in the Black Lion in Lampeter. Phyllis could use a manual sewing machine, like the ones to be found on most farms in those days, but not an electric one. She was told she would start the following week in Machynlleth. Her lodgings were already booked. Her parents weren't happy and tried to stop her from going. After that, the routine was travelling to Machynlleth on a Monday morning and returning on a Friday evening.

Phyllis admits that she's a very determined woman – once she's made up her mind she'd never change it.

Olga was born in Cwrt Newydd and was the eldest of four girls. She left school when she was fifteen because her friends were leaving. Her mother worked in an egg factory (packing

eggs) so she had to go there and work. She didn't like it at all. Her mother then heard that six girls were needed to go to Machynlleth to learn to sew in order to work in Lampeter. She didn't have any ideas about what type of job she would have liked to have done. Five girls had already been found and another one was needed. Olga got the job without even being interviewed. Olga was there nine months before Phyllis started.

00.06.28: It was a big experience for Olga, leaving the countryside and going up to a town like Machynlleth. She travelled there by train from Llanybydder to Aberystwyth, and from Aberystwyth to Machynlleth. The company paid her travel and accommodation costs. Her lodgings were within walking distance of the factory. The six of them were lodging there and all started on the same day.

It was an eye opener for Olga to see the factory. It seemed huge to her. There were about eighty to one hundred people working there.

Phyllis's experience was similar. There were three of them sharing a room at the lodging house. (It wasn't the same one as Olga's.) It was also near the factory. The building itself was an old school that had been converted into a factory, and it was large and noisy because of the sewing and cutting machines.

At the beginning of the training they had a piece of material and were asked to sew straight lines. The following day they were making parts of tabards – sewing the shoulders and the bias binding around the edges and building on their experience day by day.

There were some men working there as cutters. The material would be laid out and they would cut it with an instrument that looked like a saw. Men also did the packing, and maintained the machines. All the machinists were women.

00.11.13: One of the women who had started the same time as Olga trained Phyllis. Phyllis was in a group of seven trainees. Central to their training was building up speed. They weren't set targets until they had completed the training period and returned to Lampeter. They learnt about every part of making the garment and there were lots of different types of garments. None of the girls dropped out of the training.

Phyllis had been offered a job in London working in a kitchen when she left school but had turned it down because it was too far away and she didn't want to go to a large city. But she does have some regrets about this. Her wages were four pounds a week when she started in Cardwells, and her lodgings and travel costs were paid for. She was able to save half to three quarters of her wages. She wouldn't give anything at home if she could avoid it. When she returned to Lampeter to work she was still getting four pounds a week but spent one pound a week on bus fare.

Olga says that she was in training in Machynlleth for over a year (a year and a half possibly). They had to wait for the factory in Lampeter to be ready. It was a completely new building. When it was ready they came back from Machynlleth. Olga says she could do everything by then.

Phyllis was training from May, 1962, and returned home in the autumn of that year (a total of approximately six months.) At the beginning of the following year there was a lot of snow and ice and the factory was shut for about six weeks. Phyllis and Olga didn't receive any

pay during this time so they went on the dole. Phyllis didn't mind. Her brother had left home by now so she helped with the milking and lambing during this time and demanded payment for it.

The new factory was huge but there weren't many working there initially. (Olga's group and Phyllis's group all worked there.) They came from the villages around Lampeter rather than from the town (Tregaron, Llanddewi, Felinfach, Abermeurig, Cellan, Cwrt Newydd, Llanybydder.)

Olga didn't drive so used to get a lift with somebody who worked in Lampeter. There was no bus from Cwrt Newydd. The number of workers at the factory increased as time went on. New girls were trained in Lampeter from then on.

They mainly made ladies' dresses in Lampeter. They started at eight o'clock in the morning and had to clock in. There was a ten minute break in the morning, half an hour for lunch, and a ten minute break in the afternoon. They finished at about five o'clock. They didn't have any targets and were paid by the hour. They received their wages weekly in cash. There was just one man working there repairing the machines. He would come down from Machynlleth. All the women were single although there was a Mrs Morgan working in the canteen making the tea.

The training was on-the-job training. They were all on the same grades of pay apart from the supervisor. There was no union at the factory at that time. If they had a problem they could go and see Mrs Lewis, the manager, although neither Olga nor Phyllis remember any problem arising.

Olga: 'We were easy people to get along with I think.'

Phyllis: 'It was grin and bear it, wasn't it?'

They didn't know much about unions and had never been employed by anybody else so couldn't tell if they were fair employers or not. They could buy fabric at a discounted rate, 'for next to nothing.' Phyllis made several skirts for herself out of this material.

They wore lilac nylon overalls to work, which the company provided but they had to wash them themselves.

Phyllis remembers one of the girls getting a needle through her finger. They sent her up to the surgery with the needle still in her finger.

They didn't seem to be very strict in the factory, if for example, somebody arrived late for work. The facilities in the factory were quite basic. There was a canteen where they could buy tea but they brought their own sandwiches. There were no hot meals cooked there. Eating wasn't permitted on the factory floor.

There was a cloakroom there for the workers to store their coats. Some of the workers didn't like the work. There were people pressing and some packing too. If somebody didn't like sewing they could be moved to the pressing.

Music was played on the radio as the girls did their work but nobody ever sang. There was no talk of Health and Safety. The girls didn't socialise with each other outside work because they lived too far from each other.

The language of the factory was mainly Welsh and the atmosphere of the factory was a friendly one. Phyllis felt more at home here than she had done in Machynlleth where they spoke Welsh differently and where more English was spoken.

Phyllis had to work extra hours on two occasions only, because an order needed finishing.

Phyllis and Olga did some sewing jobs for other people after they'd finished in the factory. They both finished at the factory when they got married in order to have children.

'In those days, when somebody got married children followed, and the mother stayed at home then bringing up the children. There was no going back.'

Phyllis and Olga were quite happy to stay at home. Phyllis bought her own sewing machine and did some work at home. Neither Phyllis nor Olga went back to work.

They worked five days a week at the factory – Monday to Friday. There was no Saturday work and no shift work.

There were only thirty of them working in the factory and everybody knew what the others were up to.

Employment opportunities in the area were limited. Some girls left to go and work in shops in the town.

Phyllis and Olga had a fortnight's holiday a year in August when the factory would shut. They didn't go away on holiday but went on day trips to places like Aberystwyth or Carmarthen. There were no workers' trips organized. (Unlike during the time Augusta Davies, VSW011, worked in the factory.)

00.40.58: Olga would leave the house in the morning at twenty to eight in the morning to get her lift to Cardwells. Phyllis would catch the bus at a quarter past seven so would have to leave the house at a quarter to seven. Phyllis didn't really feel very tired after a day's work at the factory. Olga would have to hang around until six o'clock to get a lift home from Lampeter (after finishing at five o'clock.)

The best thing about working there was the company of the girls, according to Olga. Phyllis and Olga don't know what they would have done if they hadn't gone to work at Cardwells.

The numbers of workers increased as time went on. The manageress, Miss Lewis, who spoke Welsh, came from Lampeter. She would come around and check the girls' work. (The supervisors would also do this.) One of the supervisors was called Val and had started the same time as Olga. The supervisors looked after two or three lines.

Olga didn't find the work monotonous because they sewed different parts of different garments.

00.47.39: ‘quite often you would have been making something in the factory in the Spring, and by the end of the year you would see it ...in different shops. You would think, oh that was made in Lampeter...’

00.48.25: Both Phyllis and Olga got a doctor’s certificate when they were pregnant and finished work. Olga was quite happy to be finishing.

Phyllis: ‘Well you were going to something else, looking forward.’

Olga: ‘It was the beginning of the Sixties. When you had children you stayed at home with the children.’

Going back to work wasn’t an option for either of them. They didn’t even consider it.

Working at the factory had provided an escape for both of them – Phyllis from the farm, and Olga from the egg factory.